# Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu

## Dogfen Ymgynghorol 2026

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu

## Dogfen Ymgynghorol 2026

### Rhagarweiniad

1. Mabwysiadwyd y polisi trwyddedu cyfredol gan yr awdurdod ym mis Chwefror 2024, yn dilyn ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys adolygiad o'r Asesiadau Effaith Gronnol presennol ar gyfer Heol Awst, Caerfyrddin a Heol yr Orsaf, Llanelli, ac roedd hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch mabwysiadu Asesiad Effaith Gronnol pellach ar gyfer Maes Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin.

2. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod gynnal adolygiad llawn o'r Asesiadau Effaith Gronnol bob tair blynedd o leiaf er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn briodol.

3. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'n awdurdod yn adolygu'r Asesiadau Effaith Cronnol sydd ar waith ar gyfer Heol yr Orsaf, Llanelli a Heol Awst, Maes Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines Caerfyrddin.

4. Mae'r adolygiad o'r polisi yn gyfle i drigolion lleol, busnesau a deiliaid trwydded presennol a'u cynrychiolwyr gyflwyno sylwadau ffurfiol ar y ddogfen a darparu adborth ar faterion trwyddedu. Gallai hyn gynnwys manylion digwyddiadau, busnesau a gweithgareddau, megis cerddoriaeth fyw, yr hoffech eu gweld yn cael eu hannog yn y sir. Fel arall, efallai y byddwch am dynnu sylw at broblemau sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig ac sy'n effeithio ar gymuned neu ardal benodol.

5. Mae'r ymgynghoriad yn dechrau ar 18 Mai 2026 ac yn dod i ben ar 11 Awst 2026.

6. O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, y Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, sy'n gyfrifol am roi'r awdurdodiadau a ganlyn.

**Trwydded bersonol**

- Am gyflenwi alcohol, neu awdurdodi ei gyflenwi, yn unol â thrwydded safle.

**Trwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb**

- Am gyflenwi alcohol; a/neu
  - Am ddarparu adloniant rheoledig, gan gynnwys dramâu, ffilmiau, digwyddiadau chwaraeon dan do, cerddoriaeth a dawnsio neu adloniant tebyg, yng ngŵydd cynulleidfa; a/neu
- Am gyflenwi bwyd neu ddiod boeth i'r cyhoedd rhwng 11.00 pm a 5.00 am.

7. Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r ddogfen ymgynghorol yn ceisio barn a thystiolaeth ynghylch a ddylai'r Asesiadau Effaith Gronnol presennol a gynhwysir yn y polisi cyfredol, sy'n ymwneud â rhan o Heol yr Orsaf, Llanelli a Heol Awst, Maes Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines Caerfyrddin gael eu cadw.

8. Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi proses ffurfiol y mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ei dilyn wrth adolygu Asesiadau Effaith Gronnol o leiaf bob tair blynedd.

9. Mae'r paragraffau canlynol wedi'u hatgynhyrchu o'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Beth yw Effaith Gronnol?**

14.20 Mae'r cysyniad o "effaith gronnol" wedi cael ei ddisgrifio yn y canllawiau hyn a'i ddefnyddio gan yr awdurdodau trwyddedu yn eu datganiadau o bolisi trwyddedu ers cychwyn Deddf 2003. Cyflwynwyd 'asesiadau effaith gronnol' yn Neddf 2003 gan Ddeddf Plismona a Throseddu 2017, a oedd yn weithredol o 6 Ebrill 2018. Effaith gronnol yw'r effaith bosibl ar hyrwyddo amcanion trwyddedu nifer o safleoedd trwyddedig sydd wedi'u lleoli mewn un ardal.

14.21 Mewn rhai ardaloedd lle mae nifer, math neu ddwysedd safleoedd trwyddedig, megis y rhai sy'n gwerthu alcohol neu'n darparu lluniaeth hwyrnos, yn uchel neu'n eithriadol, gall problemau difrifol o ran niwsans ac anhrefn godi y tu allan i'r safleoedd hynny neu gryn bellter i ffwrdd. Mae problemau o'r fath yn digwydd yn gyffredinol o ganlyniad i'r ffaith bod nifer mawr o yfwyr yn cael eu crynhoi mewn ardal, er enghraifft, wrth adael safle ar adegau prysur neu wrth giwio mewn mannau gwerthu bwyd cyflym neu am drafnidiaeth gyhoeddus.

14.22 Gall ciwio ynddo'i hun arwain at wrthdaro, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. At hynny, gall crynodiadau mawr o bobl hefyd ddenu gweithgareddau troseddol megis delio mewn cyffuriau, pigo pocedi a lladradau stryd. Efallai na fydd gwasanaethau lleol, megis trafnidiaeth gyhoeddus, darpariaeth toiledau cyhoeddus a glanhau strydoedd, yn gallu ateb y galw a achosir gan grynodiadau o'r fath o yfwyr, sy'n arwain at broblemau megis baw stryd, gollwng sbwriel, traffig a niwsans cyhoeddus a achosir gan grynodiadau o bobl na ellir eu gwasgaru'n effeithiol yn gyflym.

14.23 Gall oriau trwyddedu amrywiadwy hwyluso'r broses o wasgaru cwsmeriaid yn fwy graddol o safleoedd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd effaith ymddygiad cwsmeriaid pob safle gyda'i gilydd ar yr ardaloedd cyfagos yn fwy nag effaith cwsmeriaid safleoedd unigol. Mae'r amodau hyn yn fwy tebygol o godi yng nghanol trefi a dinasoedd, ond gallant godi hefyd mewn canolfannau trefol eraill a'r maestrefi, er enghraifft, ar brif strydoedd llai lle mae crynodiadau uchel o safleoedd trwyddedig.

## Asesiadau effaith gronnol

14.24 Gall awdurdod trwyddedu gyhoeddi asesiad effaith gronnol i'w helpu i gyfyngu ar y nifer neu'r mathau o geisiadau am drwyddedau a ganiateir mewn ardaloedd lle

mae tystiolaeth i ddangos bod nifer neu ddwysedd safleoedd trwyddedig yn yr ardal yn cael effaith gronnol ac yn arwain at broblemau sy'n tanseilio'r amcanion trwyddedu. Mae asesiadau effaith gronnol yn ymwneud â cheisiadau am drwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb newydd a cheisiadau i amrywio trwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb presennol mewn ardal benodol.

14.25 Mae adran 5A Deddf 2003 yn nodi'r hyn y mae angen i awdurdod trwyddedu ei wneud er mwyn cyhoeddi asesiad effaith gronnol a'i adolygu, gan gynnwys y gofyniad i ymgynghori â'r personau a restrir yn adran 5(3) o Ddeddf 2003. Nid yw Deddf 2003 yn nodi sut y dylid defnyddio'r asesiad effaith gronnol ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, gan fod y gofynion ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwyddedau newydd neu amrywiadau yr un fath mewn ardaloedd ag asesiad effaith gronnol ag y maent mewn mannau eraill, fel y nodir yn adrannau 18, 35, 72 ac 85 y Ddeddf. Fodd bynnag, rhaid crynhoi unrhyw asesiad effaith gronnol a gyhoeddir gan awdurdod trwyddedu yn ei ddatganiad o bolisi trwyddedu. O dan adran 5(6D), rhaid i awdurdod trwyddedu hefyd roi sylw i unrhyw asesiad effaith gronnol a gyhoeddodd wrth benderfynu ar ei ddatganiad o bolisi trwyddedu, neu ei ddiwygio.

14.26 Rhaid i'r asesiad effaith gronnol gynnwys datganiad yn dweud bod yr awdurdod trwyddedu o'r farn bod nifer y trwyddedau safle a/neu dystysgrifau safle clwb mewn un rhan neu fwy o'r ardal a ddisgrifir yn golygu ei bod yn debygol y byddai caniatáu trwyddedau pellach yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Fel rhan o'r cyhoeddiad, rhaid i awdurdod trwyddedu nodi'r sail dystiolaethol ar gyfer ei farn.

14.27 Gallai asesiadau effaith gronnol fod yn berthnasol i safleoedd sydd wedi eu trwyddedu i gynnal unrhyw weithgaredd trwyddedadwy, gan gynnwys gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle neu oddi arno, a darparu lluniaeth hwyrnos. Mae hyn yn cynnwys darparwyr lluniaeth hwyrnos nad oes ganddynt drwydded i werthu alcohol. Gall asesiad effaith gronnol fod yn berthnasol i bob trwydded safle a thystysgrif safle clwb yn yr ardal a ddisgrifir yn yr asesiad neu rannau ohoni, neu'n unig i safleoedd o fath penodol a ddisgrifir yn yr asesiad. Er enghraifft, gallai fod yn briodol i'r awdurdod trwyddedu gynnwys siopau trwyddedig neu glybiau nos yn unig o fewn cwmpas ei asesiad. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu egluro, wrth gyhoeddi ei asesiad effaith gronnol, pa fath o safle y mae'n berthnasol iddo. Nid yw asesiadau effaith gronnol yn berthnasol i hysbysiadau digwyddiadau dros dro; fodd bynnag, mae'n agored i'r heddlu ac awdurdod iechyd yr amgylchedd (fel personau perthnasol) gyfeirio at dystiolaeth a gyhoeddwyd mewn asesiad effaith gronnol wrth wrthwynebu hysbysiad digwyddiad dros dro.

**Effaith Asesiadau Effaith Gronnol**

14.39 Wrth gyhoeddi asesiad effaith gronnol, mae'n ofynnol i awdurdod trwyddedu nodi tystiolaeth o broblemau sy'n cael eu hachosi neu eu gwaethygu gan effaith gronnol safleoedd trwyddedig yn yr ardal a ddisgrifir. Defnyddir y dystiolaeth i gyfiawnhau'r datganiad yn yr asesiad effaith gronnol, sef ei bod yn debygol y byddai caniatáu rhagor o drwyddedau safle a/neu dystysgrifau safle clwb yn yr ardal honno (wedi'u cyfyngu i'r math a ddisgrifiwyd yn yr asesiad) yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

14.40 Wrth gyhoeddi asesiad effaith gronnol, mae awdurdod trwyddedu yn nodi datganiad cryf o fwriad ynghylch ei ddull o ystyried ceisiadau am ganiatáu neu amrywio trwyddedau safle neu dystysgrifau safle clwb yn yr ardal a ddisgrifir. Wedi cyhoeddi asesiad effaith gronnol, rhaid i awdurdod trwyddedu roi sylw i'r asesiad wrth benderfynu ar ei ddatganiad o bolisi trwyddedu, neu ei ddiwygio. Disgwylir, felly, mewn perthynas â phob cais perthnasol yn yr ardal dan sylw, y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried a yw'n briodol cyflwyno sylwadau i'w bwyllgor fel awdurdod cyfrifol yn ei rinwedd ei hun. Nid yw'r asesiad effaith gronnol, fodd bynnag, yn newid y ffordd sylfaenol o wneud penderfyniadau trwyddedu. Felly, mae'n agored i'r awdurdod trwyddedu ganiatáu cais os yw'n ystyried bod hynny'n briodol a lle gall yr ymgeisydd ddangos yn yr atodlen weithredu na fyddai'n ychwanegu at yr effaith gronnol. Felly, dylai ceisiadau mewn ardaloedd a gwmpesir gan asesiad effaith gronnol roi ystyriaeth i faterion posibl o ran yr effaith gronnol wrth nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Lle derbynnir sylwadau perthnasol a bod awdurdod trwyddedu yn penderfynu caniatáu cais, bydd angen iddo roi'r rhesymau dros ganiatáu'r cais i'r ymgeisydd, prif swyddog yr heddlu a phob parti a wnaeth sylwadau perthnasol a dylai hyn gynnwys unrhyw resymau dros wyro oddi wrth ei bolisi ei hun.

14.41 Mae'n rhaid i'r asesiad effaith gronnol hefyd bwysleisio nad yw'n rhyddhau awdurdodau cyfrifol (nac unrhyw bersonau eraill) o'r angen i wneud sylwadau perthnasol pan fyddant yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau eu seilio ar y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn yr asesiad effaith gronnol, neu'r ffaith bod asesiad effaith gronnol wedi cael ei gyhoeddi. Mae'n dal yn ddyletswydd ar yr holl awdurdodau cyfrifol a phersonau eraill i sicrhau y gall eu sylwadau wrthsefyll y craffu y byddent yn ddarostyngedig iddo mewn gwrandawiad. Fel yn achos pob cais trwyddedu o dan Ddeddf 2003, os nad oes sylwadau, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ganiatáu'r cais mewn termau sy'n gyson â'r atodlen weithredu a gyflwynwyd.

14.42 Nid yw diffyg asesiad effaith gronnol yn atal unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall rhag cyflwyno sylwadau ar gais am ganiatáu neu amrywio trwydded ar sail y ffaith y bydd y safle yn cael effaith gronnol, negyddol ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, ym mhob achos, byddai'n ddyletswydd ar y person sy'n cyflwyno'r sylwadau i ddarparu tystiolaeth berthnasol o'r effaith gronnol.

14.43 Fel y nodwyd uchod, gallai asesiadau effaith gronnol fod yn berthnasol i grynhoad o unrhyw safleoedd trwyddedig, gan gynnwys y rheiny sydd wedi cael eu trwyddedu i werthu alcohol ar y safle neu oddi arno, a safleoedd sydd wedi eu trwyddedu i ddarparu lluniaeth hwyrnos. Wrth sefydlu ei sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyhoeddi asesiad effaith gronnol, dylai awdurdod trwyddedu fod yn ystyried y cyfraniad at effaith gronnol a wneir gan wahanol fathau o safleoedd yn yr ardal, er mwyn penderfynu ar briodoldeb cynnwys gwahanol fathau o safleoedd trwyddedig yn yr asesiad effaith gronnol.

## Adolygu'r Asesiad Effaith Gronnol

14.35 Ar ôl cyhoeddi asesiad effaith gronnol, rhaid i'r awdurdod trwyddedu, o fewn tair blynedd, ystyried a yw'n dal i fod o'r farn a nodir yn yr asesiad. Er mwyn penderfynu a yw'n dal i fod o'r farn hon, rhaid iddo eto ymgynghori â'r personau a

restrir yn adran 5(3). Os yw'r awdurdod trwyddedu, ar ôl ymgynghori â'r rhestr statudol o bersonau, yn penderfynu nad yw o'r farn a nodir yn yr asesiad effaith gronnol mwyach, rhaid iddo gyhoeddi datganiad i'r perwyl hwnnw. Rhaid i'r datganiad ei gwneud yn glir nad yw unrhyw gyfeiriad at yr asesiad effaith gronnol yn ei ddatganiad polisi trwyddedu yn berthnasol mwyach. Dylai'r awdurdod trwyddedu ddileu unrhyw gyfeiriad at yr asesiad effaith gronnol yn ei ddatganiad polisi trwyddedu cyn gynted â phosibl.

14.38 Gan nad oedd polisïau effaith gronnol yn rhan o Ddeddf 2003, nid oes unrhyw ddarpariaethau trosiannol sy'n berthnasol i bolisïau effaith gronnol a oedd ar waith cyn 6 Ebrill 2018. Fodd bynnag, dylid adolygu unrhyw bolisïau effaith gronnol presennol ar y cyfle ymarferol cyntaf i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Argymhellir y dylai'r adolygiad gael ei gynnal o fewn tair blynedd ar ôl cychwyn y ddeddfwriaeth ar asesiadau effaith gronnol neu'r tro nesaf y bydd y datganiad polisi trwyddedu yn cael ei adolygu, pa un bynnag fydd gyntaf. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw asesiadau effaith gronnol a oedd ar waith cyn cychwyn y darpariaethau ar asesiadau effaith gronnol yn cadw at yr egwyddorion yn y ddeddfwriaeth (yn enwedig mewn perthynas â thystiolaeth berthnasol ac ymgynghori).

10. Gellir dod o hyd i'r canllawiau statudol llawn sy'n ymwneud ag asesiadau effaith gronnol yma.

11. Mae pedwar prif ddiben i'r Polisi Trwyddedu, sef:

- Cadarnhau, ymhlith aelodau etholedig y pwyllgor trwyddedu, ffiniau a grym yr awdurdod lleol, a rhoi paramedrau iddynt ar gyfer gwneud eu penderfyniadau. Bydd modd i'r pwyllgor brofi'r cais yn erbyn meini prawf a nodwyd yn y polisi ac, os bydd angen, ychwanegu amodau at y rhai a amlinellwyd yn yr atodlen weithredu.

- Hysbysu'r rheiny sy'n gwneud cais am y drwydded ynghylch y paramedrau y mae'r awdurdod yn eu defnyddio i wneud penderfyniad ynglŷn â thrwydded, rhoi enghreifftiau o arferion rheoli da ac felly sut y mae safle trwyddedig yn debygol o fod yn gallu gweithredu o fewn ardal. (Sylwch, fodd bynnag, fod yn rhaid i bob achos gael ei ystyried yn unigol).

- Hysbysu trigolion a busnesau ynghylch y paramedrau y bydd yr awdurdod yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau trwyddedu, ac felly sut yr ymdrinnir â'u hanghenion.

- Hysbysu llys barn ynghylch sut y daeth y Cyngor i'w benderfyniadau pan gânt eu herio mewn llys, a chefnogi'r penderfyniadau hyn.

12. Mae'r papur ymgynghori hwn wedi'i anelu at drigolion lleol, busnesau, deiliaid trwydded presennol a'u cynrychiolwyr. Yn wir, mae'r Cyngor yn awyddus i dderbyn barn pawb sydd â diddordeb yn y mater.

13. Mae'r Cyngor wedi nodi pobl a sefydliadau a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn croesawu sylwadau unrhyw un sydd â diddordeb a dylai derbynwyr deimlo'n rhydd i ddwyn y papur hwn i sylw eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

14. Er mwyn gwneud sylwadau manwl ar yr asesiadau effaith gronnol, efallai y bydd yr ymatebwyr am gyfeirio'n gyntaf at y canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf i awdurdodau lleol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ogystal â'r Polisi Trwyddedu presennol a'r Ddeddf Trwyddedu ei hun. Gellir gweld y dogfennau hyn ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk drwy chwilio am ymgyngoriadau cyfredol.

    Mae copïau o'r dogfennau hyn hefyd wedi'u hadneuo at ddibenion cyfeirio yng nghanolfannau gwasanaethau cwsmeriaid Hwb y Cyngor, Uned A, Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, SA31 1GA neu 41 Stryd y Cei, Rhydaman, SA18 3BS neu 36 Stryd Stepney, Llanelli SA15 3TR.

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

15. Cynghorir ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw newidiadau i gynnwys y polisi trwyddedu adlewyrchu'r pedwar (4) amcan trwyddedu statudol, sef:-

    - **Atal Troseddu ac Anhrefn**
    - **Diogelu'r Cyhoedd**
    - **Atal Niwsans Cyhoeddus**
    - **Amddiffyn Plant rhag Niwed**

16. Mae eich barn a'ch tystiolaeth yn bwysig i'r Cyngor o ran llunio polisi trwyddedu teg a chymesur. **A fyddech cystal â sicrhau ein bod yn cael eich sylwadau erbyn 11 Awst 2026, er y byddem yn gwerthfawrogi ymateb cynharach.**

17. Er mwyn cynorthwyo ymatebwyr, rydym wedi creu arolwg ar-lein, sy'n cynnwys cwestiynau yn gofyn am adborth ar faterion penodol. Rhoddir gwybod i gyfranogwyr fod modd lanlwytho gwybodaeth atodol, megis ystadegau a datganiadau ategol, fel atodiad i'r arolwg ar ffurf Word neu PDF.

    Os hoffech gael copi caled o'r holiadur, cysylltwch ag Emyr Jones. Mae ei fanylion cyswllt ar gael isod.

    Gellir e-bostio'r ddogfen ymateb atom hefyd: **diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk**

18. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ystod proses yr adolygiad polisi. Yn anffodus, ni fydd modd ymateb yn fanwl i bob ymateb i'r ymgynghoriad.

19. Manylion Cyswllt

**Emyr Jones**
**Arweinydd Trwyddedu**
**Cymunedau Iach a Diogelu'r Cyhoedd**
**Adran Addysg a Hamdden**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**3 Heol Spilman**
**Caerfyrddin**
**SA31 1LE**

**Neu drwy e-bost at:** diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

**Diolch ichi am dreulio amser yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**

20. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch y ddogfen ymgynghori neu'r Ddeddf Trwyddedu, cysylltwch â'r adain drwyddedu drwy ffonio 01267 228717. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar y wefan: www.sirgar.gov.uk

**Os hoffech gael y ddogfen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch:**
**☎01267 228717**